

Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Maes Llafur Cytûn Ar Gyfer Addysg Grefyddol 2008



CYNNWYS

Rhagair	3
Cyflwyniad	
Cyd-destun y Maes Llafur Cytûn	4
Darparu a chynllunio addysg grefyddol	4
Y crefyddau dan sylw	4
Natur addysg grefyddol	5
Gan gynnwys yr holl ddysgwyr	5
Sgiliau ar draws y cwricwlwm	5
Dysgu ar draws y cwricwlwm	6
Rhaglenni Astudio	
Y Cyfnod Sylfaen	7
Cyfnod Allweddol 2	12
Cyfnod Allweddol 3	14
Cyfnodau Allweddol 4 ac Ôl-16	16
Disgrifiyddion lefel	19

DIOLCHIADAU

Aelodau Gynhadledd y Maes Llafur Cytûn

Joanne Dalzell (Ysgol Uwchradd Llanisien)

Rachel Davey (Ysgol Gynradd Baden Powell)

Graham Davies (Ymgynghorydd Addysgol)

Rosemary James (Ysgol Gynradd Lloneirwg yr Eglwys yng Nghymru a SACRE)

Y Canon Ieuan Wyn Jones (SACRE)

Caroline Neudegg (Athrawes ymgynghorol gynradd, dyniaethau ac Addysg Grefyddol)

Gemma Price (Ysgol Uwchradd Fitzalan)

Martin Rawle (Darlithydd, UWIC a SACRE)

Emma Summers (Ysgol Gynradd Llys-faen)

Ffotograffi

Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd Llysfaen, Ysgol Gynradd Rhiwbina, Ysgol Uwchradd Fitzalan

Mae addysg grefyddol bob amser wedi bod yn ganolog i brofiad dysgwyr Caerdydd, ac mae cymunedau ffydd niferus y ddinas yn rhoi cyd-destun cyfoethog ar gyfer y pwnc.

Trwy astudio crefydd yn ysgolion Caerdydd, bydd y plant yn cael gwell ymwybyddiaeth o gredoau, dysgeidiaethau, arferion, gwerthoedd a thraddodiadau'r cymunedau ffydd hyn, yn ogystal â chwestiynau heriol ynglŷn ag ystyr a phwmpas bywyd.

Mae addysg grefyddol yn galluogi'r dysgwyr i fyfyrion ynglŷn â'u credoau a'u gwerthoedd eu hunain, gan drafod gyda'r rhai sydd â daliadau gwahanol. Mae angen i'r deialog hwn ddigwydd mewn awyrgylch o barch a sensitifrwydd a pharodrwydd i ddysgu oddi wrth ein gilydd.

Mae Maes Llafur Cytûn Caerdydd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Caerdydd er mwyn cael addysg grefyddol o'r radd flaenaf.



Chris Jones

(Prif Swyddog, Ysgolion a Dysgu Gydol Oes)

Cyd-destun y Maes Llafur Cytûn

Mae Maes Llafur Cytûn Cyngor Caerdydd (2008) yn seiliedig ar Fframwaith enghreifftiol genedlaethol ar gyfer addysg grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru (2008) a gyhoeddwyd gan Adran Plant, Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r maes llafur yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer codi safonau ym mhlith plant a phobl ifanc Caerdydd ac yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu maes llafur a gytunir yn lleol, sy'n gofyn am y canlynol:

- Hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion; darparu yn briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys disgyblion dosbarthiadau derbyn a'r disgyblion hyd at 19 oed.
- Astudio Cristnogaeth ym mhob cyfnod allweddol ac y dylai'r prif grefyddau eraill fod y rhai a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.
- Y dylai addysg grefyddol fod yn anenwadol ond nad fydd gwaharddiad ar addysgu yngl n â chatecism neu fformiwlari penodol (h.y. gellir astudio'r nodweddion cyffredin a'r gwahaniaethau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion y traddodiadau crefyddol).

Darparu a chynllunio addysg grefyddol

Rhaid darparu addysg grefyddol ar gyfer yr holl blant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir, gan gynnwys y rhain yn y dosbarthiadau derbyn a'r chweched dosbarth, ond nid yw'n ofyniad statudol ar gyfer plant menw ysgolion a dosbarthiadau meithrin.

Fodd bynnag, mae Maes Llafur Cytûn Caerdydd yn darparu canllawiau ar gyfer gweithredu hawl anstatudol plant mewn lleoliadau meithrin a chreu sail ar gyfer cynllunio addysg grefyddol plant yng ngweddill y Cyfnod Sylfaen.

Dylai Ysgolion Arbennig ddarparu addysg grefyddol i ddisgyblion yn seiliedig ar y Maes Llafur Cytûn cyn belled ag y bo modd.

Mae'r ysgolion yn rhydd i drefnu a chyflwyno'r cwricwlwm yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau ac anghenion eu dysgwyr. (Manteisio i'r Eithaf ar Ddysgu – Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008), ac mae hyn hefyd yn berthnasol i addysg grefyddol. Dylai Addysg Grefyddol chwarae rhan yn y duedd i drefnu'r cwricwlwm mewn ffyrdd mwy dychmygus a dyfeisgar, a dylai'r ysgolion ystyried archwilio dulliau thematig ar y cyd â phynciau eraill, er enghraifft, gan gydweithredu i ganolbwyntio ar sgiliau penodol neu bwnc estynedig, etc.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran dyrannu amser neu drefnu addysg grefyddol, ond dylai'r ysgolion sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb i ddarpariaeth y pynciau eraill nad ydynt yn bynciau craidd ac yn ddigonol ar gyfer cyflwyno'r rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytûn.

Y crefyddau dan sylw

Er mwyn cyflwyno astudiaeth eang a chytbwys o'r prif grefyddau i'r disgyblion, mae'r maes llafur yn dynodi crefyddau penodol ar gyfer gwahanol gyfnodau allweddol. Nodir y rhain isod:

Fodd bynnag, yn ychwanegol at y crefyddau a nodir, gall ysgolion ddewis astudio agweddau eraill ar grefyddau yn ôl eu disgrisiwn.

Y Cyfnod Sylfaen Cristnogaeth ac Iddewiaeth neu Islam
Cyfnod Allweddol 2 Cristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam
Cyfnod Allweddol 3 Cristnogaeth, Sikhiaeth a Hind aeth
Cyfnod Allweddol 4 Cristnogaeth ac o leiaf un crefydd arall o ddewis yr ysgol
Ôl-16 Cristnogaeth a Bwdhaeth.

Natur addysg grefyddol

Mae addysg grefyddol yn yr unfed ganrif ar hugain yn annog disgyblion i archwilio amrywiaeth o gwestiynau athronyddol, diwinyddol, moesegol ac ysbrydol mewn modd myfyriol, dadansoddol a chytbwys sy'n ysgogi cwestiynau a dadl.

Mae hefyd yn canolbwyntio ar ddeall dyhead dynoliaeth am ystyr, yr agweddau cadarnhaol ar gyd-ddealltwriaeth amlffydd/amlddiwylliannol, a dealltwriaeth y disgyblion eu hunain o fywyd a chrefydd, a'u hymatebion i hynny.

Mae addysg grefyddol yn yr unfed ganrif ar hugain yn golygu dull agored, gwrthrychol, ymchwiliol, ond bydd rhieni'n parhau i fod â'r hawl cyfreithiol i dynnu eu plant allan o'r gwersi hyn.

Cynnwys yr holl ddysgwyr

Rhaid i addysg grefyddol wneud cyfraniad o ran datblygu personoliaethau a doniau'r plant a'r bobl ifanc i'r eithaf a diogelu a hyrwyddo eu lles.

Gall helpu'r ysgolion i ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar a pharchus tuag at eraill ac yn hyrwyddo dulliau gweithredu sy'n cefnogi hunaniaethau ethnig a diwylliannol yr holl ddysgwyr, fel dinasyddion y byd.

Rhaid i'r ysgolion weithio i leihau'r rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a chynnig cyfleoedd i'r holl ddysgwyr gyflawni eu llawn botensial wrth baratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd. Mae angen iddynt ymateb i'r her o ddileu'r rhwystrau i ddysgu, gan gynnwys anabledd, cyfathrebu trwy ddulliau arall heblaw lleferydd a iaith gyntaf nad yw'n Saesneg na Chymraeg.

Dylid addysgu Addysg Grefyddol mewn ffyrdd sy'n briodol i'r dysgwyr wrth iddynt aeddfedu a datblygu'u galluoedd, er mwyn eu galluogi i wneud defnydd llawn o'u dull cyfathrebu dewisol. Dylai'r athrawon fabwysiadu amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu a defnyddio'r deunydd mewn ffyrdd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn eu hymgysylltu yn y broses ddysgu.

Ar gyfer y dysgwyr sydd â chyrhaeddiad sy'n llawer is na'r lefelau disgwyledig mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai'r ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwyr fel man cychwyn ac addasu'r rhaglenni astudio fel y bo'n briodol. Pan nad oes modd ymdrin â holl gynnwys y rhaglenni astudio ar gyfer cyfnod allweddol, gellir cyflawni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys trwy ddethol pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm a'u defnyddio fel cyd-destunau ar gyfer dysgu.

Ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a dawnus sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai'r ysgolion ddarparu rhagor o her trwy ddefnyddio'r deunydd mewn ffyrdd sy'n estyn ehangder a dyfnder yr astudio a'r cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol.



Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Datblygwyd Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru (2008) er mwyn rhoi canllawiau ynglŷn â pharhad a chynnydd wrth ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhifedd dysgwyr 3-19 oed.

Ym mhob cam a chyfnod allweddol, dylai dysgwyr addysg grefyddol barhau i feithrin, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp ac unigol.

 Bydd y dysgwyr yn datblygu **sgiliau meddwl** wrth ofyn cwestiynau hanfodol, ymchwilio a sefydlu cysylltiadau rhwng y credoau crefyddol, dysgeidiaethau ac arferion y byddant yn eu hastudio, a chynllunio'u hymchwili trwy gasglu a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau. Byddant yn gwerthuso ac yn cyfiawnhau eu hymatebion personol ac yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau creadigol i ddatrys problemau gan ddatblygu syniadau ac archwilio a herio dehongliadau.

 Mewn addysg grefyddol, bydd dysgwyr yn datblygu **sgiliau cyfathrebu** trwy ofyn cwestiynau, cyfleu syniadau a mynegi eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain. Byddant yn gwrandao'n ofalus ac yn feirniadol ar eraill ac yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen/ysgrifennu gan ddibynnu ar yr ymchwil

neu'r gweithgaredd y byddant yn ymgymryd ag ef. Byddant yn dangos dealltwriaeth gynyddol o iaith a symbolau crefydd.



Bydd y dysgwyr yn datblygu **sgiliau TGCh** pan fyddant yn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth (gan ddefnyddio, er enghraifft, e-bost a PowerPoint); byddant yn cyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol fformatau gan ddefnyddio prosesu geiriau a graffeg; yn canfod a datblygu gwybodaeth ar y Rhyngrwyd ac o ffynonellau eraill gan gynnwys CD-Rom, etc; yn cefnogi cyflwyniadau llafar a chreu syniadau a strategaethau i wella effaith eu gwaith.



Bydd y dysgwyr yn datblygu **sgiliau cymhwyso rhifau** mewn addysg grefyddol trwy osod digwyddiadau yn eu trefn gronolegol, mesur amser gan ddefnyddio calendrau gwahanol grefyddau, cyfrifo canrannau'r degymiad ac ystyried arwyddocâd rhifau mewn crefyddau, er enghraifft. Byddant yn dehongli'r canlyniadau ac yn cyflwyno canfyddiadau holiaduron graffiau a data eraill i lunio casgliadau a gofyn cwestiynau pellach am y materion yn ymwneud â chrefydd a'r byd.

Dysgu ar draws y cwricwlwm

Mewn Addysg Grefyddol dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am, a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad a lles personol a chymdeithasol a'u hymwybyddiaeth o fyd gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r cyfnod Ôl-16, dylid datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr a'u cymhwyso o fewn cydestunau eu llwybrau 14-19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

Mae Addysg Grefyddol yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy alluogi'r dysgwyr i werthfawrogi arwyddocâd, gwerth ac effaith treftadaeth Gristnogol gyfoethog a dynamig crefyddau lluosog Cymru, yn y gorffennol a'r presennol.



Mae Addysg Grefyddol yn cyfrannu at **Gymru, Ewrop a'r Byd** trwy godi cwestiynau heriol o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol; Cwestiynau yn ymwneud â phenderfyniadau gwleidyddol, camfanteisio a chyfiawnder, rhyddid cymdeithasol a chyfrifoldeb, materion iawnderau dynol, llewyrch economaidd a chyfrifoldeb Cymru tuag at, a'i pherthynas â'i dinasyddion ei hunan a dinasyddion gweddill y byd.



Mae Addysg Grefyddol yn cyfrannu at **addysg bersonol a chymdeithasol** trwy archwilio dimensiynau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Byd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o, a pharch tuag at, gwahanol grefyddau'r byd ac yn archwilio'r modd y mae crefydd yn effeithio ar benderfyniadau a ffyrdd o fyw o fewn diwylliannau amrywiol o amgylch y byd.

Bydd y dysgwyr yn archwilio'r ffordd y mae llawer o grefyddau yn meithrin gwerthoedd a dyheadau megis cydraddoldeb, cyfiawnder, cyfrifoldeb, heddwch a moeseoldeb a chânt eu hannog hefyd i gwestiynu gwerthoedd a dyheadau eu bywydau eu hunain a bywydau eraill.



Mae Addysg Grefyddol yn cyfrannu at **yrfaeod a byd gwaith** trwy roi mewnwelediad i'r ffordd y mae crefydd yn dylanwadu ar y credinwyr pan fyddant yn dewis gyrfa, a'r safonau a ddisgwylir ganddynt yn eu bywyd gwaith.

Bydd gwybod am gredoau ac arferion crefyddol yn gallu gwella dealltwriaeth y gymuned a rhoi gwybodaeth hanfodol ar gyfer galwedigaethau megis meddygaeth, gwleidyddiaeth, y gyfraith ac addysg.

Bydd y dysgwyr yn gallu gwerthuso safbwyntiau crefyddol a moesol yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion busnes ac yn cynnig amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy, megis datrys problemau a meddwl yn feirniadol, ar gyfer byd gwaith sy'n newid yn barhaus.



Y CYFNOD SYLFAEN RHAGLEN ASTUDIO - SGILIAU

Pobl, credoau a chwestiynau

Trwy archwilio 'Pobl, credoau a chwestiynau', bydd y plant yn datblygu sgiliau yn naturiol ac yn gwneud cysylltiadau â phob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r rhaglen yn darparu hawl anstatudol i'r plant mewn ysgolion a dosbarthiadau meithrin, gyda phwyslais ar straeon diwylliannol a thraddodiadol a phrofiadau ymarferol yn ymwneud ag ymdrech ysbrydol, moesol a diwylliannol. Y rhaglen hon hefyd fydd y sail ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth statudol i'r plant yn ystod gweddill y Cyfnod Sylfaen, trwy ddatblygu eu chwilfrydedd naturiol ymhellach a'u galluogi i ddysgu mwy amdanynt eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u hamgylch yng nghyd-destun nodweddion diwylliannol a chrefyddol eu cymuned.

Trwy chwarae a gweithgareddau eraill a gynllunnir bydd y plant yn datblygu eu syniadau a'u teimladau, yn gofyn cwestiynau ac yn gwrando ar, ac ymateb i, eraill. Byddant yn mynegi eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain gan ddangos sensitifrwydd i eraill o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol, ac yn dechrau deall effaith eu gweithredoedd ar eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau trwy archwilio Cristnogaeth yn bennaf, yn ogystal ag Iddewiaeth neu Islam. Gall yr ysgolion ddewis archwilio agweddau ar y prif grefyddau eraill yn ôl eu disgrisiwn.

A. GWYBOD AM, A DEALL, Y BYD

Er mwyn cael profiad o'r byd cyfarwydd trwy archwilio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored, dylid annog y plant i fod yn chwilfrydig a darganfod pethau trwy'r canlynol:

- archwilio ac arbrofi â chyfleoedd dysgu newydd, gan gynnwys chwarae rôl; ymweld â mannau
- arbennig/crefyddol; gwneud a defnyddio arteffactau; bwydydd; TGCh.
- meddwl a gofyn cwestiynau amdanynt eu hunain, pobl eraill a phethau byw eraill, a gwrando ar yr atebion.
- ymateb i'w syniadau eu hunain a syniadau eraill, gan gynnwys eu gobeithion, breuddwydion, safbwyntiau, rheolau a'r ffyrdd y maent yn ymdopi ag adegau hapus neu drist.
- dod yn ymwybodol o'r hyn y mae dyn wedi'i gyflawni, gan gynnwys pobl grefyddol o'r gorffennol a'r presennol a'r 'syniadau mawr' sydd wedi dylanwadu ar ein byd.
- ymchwilio i ffynonellau a materion a godwyd trwy straeon, llyfrau sanctaidd, gwyliau, dathliadau a defodau newid byd.
- gwneud cymariaethau a nodi tebygrwydd a gwahaniaethau mewn hunaniaeth, ffordd o fyw, cymunedau a thraddodiadau.
- meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau pwysig dynolryw a chrefydd.
- disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod am bobl, credoau a chwestiynau a chynnig esboniadau syml.
- mynegi eu safbwyntiau a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill.
- defnyddio a dod yn gyfarwydd â geiriau ac ymadroddion cyffredin ar gyfer eu byd hwy, a'r ffyrdd sydd gan bobl o fynegi syniadau, credoau ac ystyr.



B. DATBLYGIAD PERSONOL A CHYMDEITHASOL, LLES AC AMRYWIAETH DDIWYLLIANNOL.

(A) Datblygiad Personol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r plant wneud y canlynol:

- mynegi a chyfathrebu eu gwahanol deimladau ac emosiynau eu hunain a rhai pobl eraill.
- dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau a dysgu, yn arbennig wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill.
- dod i feddwl a dysgu yn annibynnol trwy ddefnyddio syniadau a strategaethau a ystyriwyd yn drylwyr.
- gwerthfawrogi dysgu, llwyddiant a chyrhaeddiad eu hunain a phobl eraill.

(B) Datblygiad cymdeithasol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r plant wneud y canlynol:

- bod yn ymwybodol o anghenion disgyblion eraill, a'u parchu;
- cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain.
- ystyried goblygiadau eu geiriau a'u gweithredoedd ar gyfer eu hunain ac eraill.
- datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, tra'n arddangos parch cilyddol.
- gwerthfawrogi cyfeillion a theuluoedd a dangos gofal ac ystyriaeth.
- datblygu delwedd bositif o'u hunain ac ymdeimlad o berthyn i wahanol gymunedau a magu dealltwriaeth o'u hunaniaeth.
- datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a gwahanol anghenion, safbwyntiau a chredoau pobl eraill yn eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill.
- trin pobl o bob cefndir diwylliannol mewn modd sy'n dangos parch a chyd-ddealltwriaeth.
- datblygu dealltwriaeth o'r rhannau amrywiol a chwaraeir gan bobl mewn gwahanol grwpiau a chymunedau crefyddol.
- dechrau cwestiynu ystrydebau.



(C) Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r plant wneud y canlynol:

- ymateb i syniadau a chwestiynau yn frwdfrydig, sensitif, creadigol a sythweledol.
- cyfathrebu ynghylch yr hyn sy'n dda a drwg, cywir ac anghywir, teg ac annheg, gofalgar ac anystyriol.
- cyfathrebu a myfyrio ynghylch y penderfyniadau a wneir mewn straeon a sefyllfaoedd, neu'n bersonol, gan awgrymu ymatebion eraill, gan gynnwys ymatebion o safbwyntiau crefyddol.
- ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygus, gan eu hystyried o safbwyntiau crefyddol a rhoi rhesymau am wneud y penderfyniadau.
- profi amseroedd cyffrous, rhyfeddol, ysbrydoledig, creadigol a/neu distaw a mynegi syniadau a theimladau am yr amseroedd hyn mewn modd creadigol, gan archwilio eu harwyddocâd.
- ystyried pam fod pobl, gan gynnwys pobl grefyddol, yn gwerthfawrogi ac yn ceisio adegau o greadigrwydd, parchedig ofn a rhyfeddod, heddwch a llonyddwch a datguddiad.
- siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws ynteu'n fwy cymhleth.
- gofyn cwestiynau am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd o safbwynt personol ac o safbwynt pobl eraill.
- cyfathrebu syniadau, gwerthoedd a chredoau am eu hunain, eraill a'r byd.

(D) Lles

Dylid rhoi cyfleoedd i'r plant wneud y canlynol:

- gwerthfawrogi a chyfrannu at eu lles eu hunain a lles pobl eraill.
- bod yn ymwybodol o'u teimladau a'u safbwyntiau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn modd priodol a chytbwys.
- deall y gydberthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd.
- deall bod gan bobl eraill deimladau a chredoau sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn meddwl ac ymddwyn.
- arddangos gofal, parch ac anwyldeb tuag at blant, oedolion a phethau byw eraill a'u hamgylchedd.
- datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o amgylch a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb am bethau byw a'r amgylchedd.



Y CYFNOD SYLFAEN

AMREDIAD - POBL, CREDOAU A CHWESTIYNAU

Dylid rhoi cyfleoedd i'r plant estyn eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r canlynol:

EU HUNAIN

- Eu cartrefi, teuluoedd, a'u profiadau er mwyn archwilio'u hunaniaeth a'u hymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, profiadau personol o wyliau, dathliadau, defodau newid byd.
- Eu hymatebion personol. Er enghraifft, hoff a chas bethau, teimladau ar adegau o lawenydd a thristwch; eu gobeithion, breuddwydion, safbwyntiau a'u synnwyr digrifwch.
- Eu swyddogaeth a'u lle yn y gymuned. Er enghraifft, fel aelod o'u teulu, yn rhan o gymuned crefyddol; wrth gyfrannu at elusen.
- Y penderfyniadau a wnânt a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny. Er enghraifft, rhannu, caredigrwydd, ymddygiad, dewis, agweddau.
- Yr ystyr ysbrydol neu foesol dyfnach a fynegir mewn straeon, cerddi, arteffactau, celf, symudiadau, defodau, dathliadau ac amseroedd arbennig a brofant. Er enghraifft, penblwyddi, Dydd G yl Dewi, straeon traddodiadol, straeon am helpu eraill, straeon crefyddol, ymdopi gydag amseroedd hapus a thrist, holi ynglŷn â'r cwestiynau mawr.

POBL ERAILL

- Cartrefi teuluoedd a phrofiadau pobl eraill, i archwilio'r elfennau cyffredin a'r gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw a thraddodiadau. Er enghraifft, dathliadau a thraddodiadau teuluol, profiad o wyliau crefyddol, addoli, rheolau, bwyd.
- Pobl arbennig a'r bobl sy'n eu helpu. Er enghraifft, teuluoedd plant, athrawon, aelodau o'r gymuned, straeon am lesu ac arweinwyr crefyddol dylanwadol eraill a phobl o'r gorffennol a'r presennol.
- Eu hymatebion personol. Er enghraifft, hoff a chas bethau, gan gynnwys rhannu gobeithion, breuddwydion, safbwyntiau, syniadau, profiadau a synnwyr digrifwch gydag eraill.
- Swyddogaeth pobl, a'u lle yn y gymuned. Er enghraifft, fel aelodau o deuluoedd, grwpiau, grwpiau crefyddol, arweinwyr crefyddol lleol.
- Y penderfyniadau a wna pobl eraill a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny. Er enghraifft, rheolau, defodau, dewisiadau, bod yn rhan o'r gymuned.
- Rhesymau pam bod pobl yn mynegi empathi ysbrydol/moesol dyfnach tuag at bobl eraill. Er enghraifft, archwilio pam fod pobl yn helpu eraill wrth eu gwaith ac amser rhydd - a yw eu credoau'n dylanwadu ar eu bywydau?
- Yr angen i barchu a herio eu syniadau/credoau eu hunain a phobl eraill. Er enghraifft, gofyn cwestiynau, rhannu syniadau a safbwyntiau.

PETHAU BYW

- Y ffyrdd y byddant hwy a phobl eraill yn dangos gofal, consyrn, parch tuag at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol. Er enghraifft, cymryd cyfrifoldeb dros anifeiliaid a phlanhigion; gofyn cwestiynau a rhannu safbwyntiau.
- Cyfrifoldeb a chonsyrn am y byd. Er enghraifft, ailgylchu; canfod sut all pobl wneud gwahaniaeth.
- Parchedig ofn a rhyfeddod. Er enghraifft, ymchwilio i'r byd naturiol a'r tymhorau.

MAES LLAFUR CYTŪN AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL

Mae'r canlyniadau canlynol ar gyfer addysg grefyddol yn anstatudol. Ysgrifennwyd hwy er mwyn cydnabod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gweithio islaw Lefel 1.

Mae Canlyniadau Addysg Grefyddol 1, 2 a 3 yn alinio gyda Chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen 1, 2 a 3.

Mae'r canlyniadau addysg grefyddol yn disgrifio math ac ystod y perfformiad nodweddiadol y dylai'r disgyblion sy'n gweithio ar ganlyniad penodol ei arddangos. Wrth benderfynu ar gyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai'r athrawon benderfynu ar y disgrifiad gorau ar gyfer perfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiad o'r canlyniadau gyferbyn

Canlyniad Cyfnod Sylfaen 1	Canlyniad Addysg Grefyddol 1
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 2	Canlyniad Addysg Grefyddol 2
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 3	Canlyniad Addysg Grefyddol 3
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 4	Canlyniad Addysg Grefyddol 1
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 5	Canlyniad Addysg Grefyddol 2
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 6	Canlyniad Addysg Grefyddol 3

Canlyniad 1

Mae'r disgyblion yn adnabod eu hunain, pobl gyfarwydd, llefydd a gwrthrychau mewn lluniau/straeon a dangos eu bod yn gwybod am ddefodau beunyddiol. Mae'r disgyblion yn defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i wneud sylwadau am straeon ac arteffactau crefyddol cyfarwydd. Gydag anogaeth, mae'r disgyblion yn dechrau cyfathrebu am eu teimladau ac am brofiadau megis ymweliadau ag adeiladau arbennig, gwyliau a dathliadau.

Canlyniad 2

Mae'r disgyblion yn ymateb i gwestiynau am eu teimladau a phrofiadau ('beth?' 'lle?') Maent yn cynnig eu syniadau eu hunain, gan wneud cysylltiadau/darogan canlyniadau. Mae'r disgyblion yn trin ac archwilio arteffactau ac yn dangos peth ymwybyddiaeth o bobl arbennig, llyfrau a mannau addoli. Maent yn ymateb i straeon a digwyddiadau o'r gorffennol a'r presennol. Maent yn dechrau cydymdeimlo â theimladau pobl eraill sy'n cael eu portreadu mewn straeon a digwyddiadau crefyddol o'r gorffennol a'r presennol.

Canlyniad 3

Gall y disgyblion gofio digwyddiadau arwyddocaol yn y gorffennol a rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Gall y disgyblion gynnig syniadau annibynnol am bethau yn eu bywydau sy'n peri pryder iddynt. Gall y disgyblion gyfleu eu gwybodaeth gynyddol am straeon, digwyddiadau a gwrthrychau crefyddol a dangos peth ymwybyddiaeth o natur arbennig y rhain. Mae'r disgyblion yn fwy ymwybodol o, a sensitif i, anghenion pobl eraill ac yn deall y dylid trin pethau byw gyda pharch a chonsyrn amlwg.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

RHAGLEN ASTUDIO - SGILIAU

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae addysg grefyddol yn adeiladu ar y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd yn y Cyfnod Sylfaen.

Anogir rhyfeddod y dysgwyr a'u diddordeb yn y byd a phrofiad dynolryw, a chânt eu hysgogi i godi ac ymchwilio i gwestiynau dwfn sy'n ymwneud â'u profiad personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol.

Rhoddir cyfleoedd i'r dysgwyr ymchwilio i'w credoau, dysgeidiaethau, ac arferion y cymunedau ffydd yn lleol, ledled Cymru ac yn y cyd-destun byd-eang.

Bydd eu hymchwil yn eu galluogi i feddwl am, a thrafod cwestiynau crefyddol a moesol dyfnach a pharchu safbwyntiau pobl eraill.

Bydd y dysgwyr yn ystyried eu teimladau eu hunain ac yn mynegi eu safbwyntiau a'u barn gan gydnabod ar yr un pryd y gallai eraill feddwl yn wahanol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn datblygu'r tri sgil craidd wrth astudio Cristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam. Rhoddir sylw i agweddau ar grefyddau eraill yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

SGILIAU CRAIDD MEWN ADDYSG GREFYDDOL		
YMDRIN Â'R CWESTIYNAU HANFODOL	ARCHWILIO CREDOAU, DYSGEIDIAETHAU AC ARFERION GREFYDDOL	MYNEGI YMATEBION PERSONOL
Mae hyn yn golygu codi cwestiynau hanfodol ac ymateb iddynt. Mae'r rhain yn gwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd.	Mae hyn yn cynnwys archwilio straeon crefyddol, testunau sanctaidd, dathliadau, defodau a symbolaeth sy'n darparu canfyddiadau'r cymunedau ffydd ynghylch y cwestiynau hanfodol.	Mae hyn yn ymwneud ag ystyried a gwerthuso profiadau, gwerthoedd a chredoau pobl eraill a'r cwestiynau y mae'r rhain yn eu codi, a'r gallu i fynegi'ch teimladau a'ch credoau eich hunan.

YMGYSYLLTU	ARCHWILIO	MYNEGI
Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol: • holi, trafod ac ymateb i'r cwestiynau hanfodol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd; • defnyddio tystiolaeth amrywiol o ffynonellau crefyddol a seciwlar i ystyried y materion sydd wedi codi; • defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau mewn modd effeithiol er mwyn cyflwyno a chefnogi'r dadleuon a'r safbwyntiau; • datblygu esboniadau eraill ac awgrymu posibiliadau newydd; • Cadw meddwl agored wrth ymgymryd â gwaith ymchwil a bod yn barod i gael eu herio gan wybodaeth neu dystiolaeth newydd.	Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol: • cofio, disgrifio a dechrau esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol; • archwilio a llunio cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol; • disgrifio a dechrau esbonio effaith crefydd ar fywydau'r credinwyr; • Nodi'r elfennau tebyg a'r gwahaniaethau o fewn ac ar draws crefyddau; • cydnabod a dechrau dehongli ystyr a symbolaeth o fewn straeon crefyddol, defodau, celf, dawns a cherddoriaeth.	Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol: • mynegi a dechrau cyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau trwy amryw o ffyrdd; • dangos sut mae eu dysgu wedi effeithio ar eu syniadau a'u safbwyntiau eu hunain; • ystyried, gwerthfawrogi, cydymdeimlo a pharchu safbwyntiau pobl eraill; • cydnabod bod ochr ysbrydol i fywyd, gan ei harchwilio a myfyrio arni; • defnyddio geirfa grefyddol amrywiol yn briodol; • defnyddio TGCh i gyrchu gwybodaeth a chyfleu syniadau.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

RHAGLEN ASTUDIO - YR YSTOD

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau o fewn y cyd-destunau canlynol ar gyfer astudio, a dylid archwilio pob un o'r cyd-destunau yn ystod y cyfnod allweddol. Ni ddylid astudio'r cyd-destunau hyn ar wahân; yn hytrach, dylid eu plethu trwy'i gilydd er mwyn i'r disgyblion ymgysylltu, archwilio a mynegi.

Y BYD

Tarddiad Bywyd

sut mae gwahanol hanesion y creu yn ceisio esbonio tarddiad y byd. Er enghraifft, hanes creu'r byd yn ôl Cristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam.

Byd natur a phethau byw

sut mae crefyddau'n dangos gofal a chyfrifoldeb am y byd. Er enghraifft, dangos gofal am yr amgylchedd, datblygu parch a rhyfeddod tuag at natur; bod ag agwedd gyfrifol tuag at anifeiliaid.

PROFIAD DYNOLRYW

Hunaniaeth dynolryw

yr elfennau cyffredin a gwahanol yng nghredoau unigolion. Er enghraifft, wrth weddio; defnyddio gwrthrychau crefyddol; mynychu addoldai.

Ystyr a phwrpas bywyd

sut a pham yr ystyrir bod crefydd yn rhoi mewnwelediad i gwestiynau dwfn bywyd. Er enghraifft, pam ydyn ni yma? A oes Duw? Beth sy'n digwydd pan fyddwn farw? A oes nefoedd? Sut ddylwn i fyw fy mywyd?

Ymdeimlad o berthyn

sut a pham bod credinwyr yn mynegi eu ffydd ac yn rhannu credoau ac arferion pobl eraill er mwyn creu ymdeimlad o berthyn a chymuned. Er enghraifft, addoli; gwyliau; gwisg crefyddol' seremonïau uno ac ymrwymo.

Awdurdod a dylanwad

sut a pham bod gwahanol fathau o awdurdod yn arwain, dylanwadu ac ysbrydoli pobl. Er enghraifft, testunau sanctaidd; arweinwyr crefyddol o'r gorffennol a'r presennol; pobl bwysig o fewn traddodiadau crefyddol; codau ymddygiad.

Perthnasau a chyfrifoldeb

sut gall crefyddau ddangos pwysigrwydd perthnasau personol a chyfrifoldeb at eraill. Er enghraifft, priodas mewn cymunedau ffydd; safbwyntiau crefyddol yngl n â materion cymdeithasol; pobl sydd wedi dangos ymrwymiad ac y aberth er mwyn eu crefydd; sefydliadau gofal crefyddol.

Taith bywyd

sut a pham bod crefyddau'n dathlu'r gwahanol gyfnodau ym mywydau pobl. Er enghraifft, seremonïau ar adeg genedigaeth, dod i oed, priodo, marw.

CHWILIO AM YSTYR

Archwilio'r byd ysbrydol

sut mae pobl yn dangos eu bod yn creu yn ochr ysbrydol bywyd. Er enghraifft, credu yn Nuw; gweddio; teimladau ac emosiynau; profiadau ystyrion.

Ymateb i brofiad ysbrydol

sut a pham y bydd pobl yn gweithredu ar sail eu profiad ysbrydol. Er enghraifft, dangos cariad a maddeuant; helpu yn y gymuned; rhoi eu bywyd i eraill; mynegi eu hunain trwy gelf, cerddoriaeth, barddoniaeth ac addoli.

Datblygu credoau a gwerthoedd personol

sut a pham bod pobl yn dod i gredu bod yr ysbrydol yn bosibl. Er enghraifft, profiadau o Dduw, gweddio, myfyrdod; parchedig ofn a rhyfeddod.



CYFNOD ALLWEDDOL 3

RHAGLEN ASTUDIO - SGILIAU

Yng Nghyfnod Allweddol 3 mae addysg grefyddol yn adeiladu ar y sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'n ysgogi'r dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau wrth archwilio eu dealltwriaeth o fywyd a'r byd ac wrth chwilio am ystyr.

Rhoddir cyfleoedd i'r dysgwyr ymchwilio i'w credoau, dysgeidiaethau, ac arferion y cymunedau ffydd yn lleol, ledled Cymru ac yn y cyd-destun byd-eang.

Byddant yn archwilio amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ar fywyd ac yn cymharu'r rhain â'r cwestiynau hanfodol sy'n effeithio ar ddynolryw, gan barhau i ofyn cwestiynau mwy dwfn a heriol. Byddant hefyd yn astudio effaith credoau ac arferion crefyddol ar faterion ysbrydol a moesol personol a byd-eang.

Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn myfyrio ar eu teimladau a'u profiadau eu hunain ac yn mynegi a chyfiawnhau eu safbwyntiau a'u barn eu hunain.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn datblygu'r tri sgil craidd wrth astudio Cristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam. Gellir rhoi sylw i'r prif grefyddau eraill yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

SGILIAU CRAIDD MEWN ADDYSG GREFYDDOL

YMDRIN Â'R CWESTIYNAU HANFODOL	ARCHWILIO CREDOAU, DYSGEIDIAETHAU AC ARFERION GREFYDDOL	MYNEGI YMATEBION PERSONOL
Mae hyn yn golygu codi cwestiynau hanfodol ac ymateb iddynt. Mae'r rhain yn gwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd.	Mae hyn yn cynnwys archwilio straeon crefyddol, testunau sanctaidd, dathliadau, defodau a symbolaeth sy'n darparu canfyddiadau'r cymunedau ffydd ynghylch y cwestiynau hanfodol.	Mae hyn yn ymwneud ag ystyried a gwerthuso profiadau, gwerthoedd a chredoau pobl eraill a'r cwestiynau y mae'r rhain yn eu codi, a'r gallu i fynegi'ch teimladau a'ch credoau eich hunan.

YMGYSYLLTU

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol:

- holi, trafod ac ymateb i'r cwestiynau hanfodol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd;
- tynnu ar eu profiadau eu hunain ac ar amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a seciwlar, er mwyn casglu tystiolaeth a datblygu dadleuon priodol;
- defnyddio sgiliau uwch, ffurfio dadleuon a chyfiawnhau'r safbwyntiau, gan gydnabod bod y casgliadau yn anghyflawn, yn amhendiant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

ARCHWILIO

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol:

- cofio, disgrifio ac esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol y maent yn dechrau ymchwilio iddynt;
- gwneud y cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac ymchwilio iddynt, er mwyn arddangos dealltwriaeth o amrywiaeth o syniadau a chysyniadau crefyddol;
- disgrifio ac esbonio'r elfennau tebyg a'r gwahaniaethau o fewn ac ar draws crefyddau;
- esbonio sut mae crefydd yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau lleol a'r gymdeithas ehangach;
- dadansoddi a dehongli'r haenau o ystyr a symbolaeth o fewn straeon crefyddol, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth.

MYNEGI

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol:

- cyfleu syniadau a chysyniadau crefyddol gan ddefnyddio dadleuon rhesymegol, safbwyntiau personol a syniadau mewn amryw o ffyrdd;
- esbonio sut gall eu dysg yngl n â phrofiad ysbrydol a phenderfyniadau moesol y wedi effeithio ar 'safbwyntiau' eu hunain ac eraill.
- gwerthfawrogi, parchu a chydymdeimlo â safbwyntiau pobl eraill a'u gwerthuso, gan gydnabod yr elfennau tebyg a'r gwahaniaethau;
- cydnabod ac archwilio'r ochr ysbrydol i fywyd;
- defnyddio amrywiaeth o dermau crefyddol yn briodol;
- defnyddio TGCh i gyrchu gwybodaeth a chyfleu syniadau.

CYFNOD ALLWEDDOL 3

RHAGLEN ASTUDIO - YR YSTOD

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau o fewn y cyd-destunau canlynol ar gyfer astudio, a dylid archwilio pob un o'r cyd-destunau yn ystod y cyfnod allweddol. Ni ddylid astudio'r cyd-destunau hyn ar wahân; yn hytrach, dylid eu plethu trwy'i gilydd er mwyn i'r disgyblion ymgysylltu, archwilio a mynegi.

Y BYD

Tarddiad Bywyd

dehongliadau crefyddol o darddiad y byd a'r ddadl gyfoes ynghylch gwerth a phwrpas bywyd. Er enghraifft, hanesion y creu; moeseg feddygol.

Byd natur a phethau byw

pam fod crefyddau'n cydnabod pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb dros fydd natur a phethau byw a sut meant yn rhoi eu credoau ar waith. Er enghraifft, agweddau tuag at yr amgylchedd; gweithredu cymdeithasol.

PROFIAD DYNOLRYW

Hunaniaeth dynolryw

archwilio hunaniaeth bersonol a'r modd y mae crefyddau'n ystyried dyn mewn perthynas â gweddill y greadigaeth. Er enghraifft, "pw ydw i?" "fe'i gwnaed ar ddelw Duw" "ewyllys rydd; hawliau a chyfrifoldebau.

Ystyr a phwrpas bywyd

sut a pham yr ystyriir bod crefydd yn rhoi mewnwelediad i gwestiynau dwfn bywyd. Er enghraifft, pwrpas bywyd; bywyd ar ôl marw; dioddefaint.

Ymdeimlad o berthyn

sut a pham y mae pobl yn mynegi hunaniaeth grefyddol ac yn arddangos ymrwymiad trwy addoli, dathlu a ffordd o fyw. Er enghraifft, ymrwymiad i gymuned ffydd; seremonïau uno; gwisg grefyddol, gwyliau.

Awdurdod a dylanwad

ymchwilio i awdurdodau crefyddol a'u dylanwad ar fywyd y credinwyr. Er enghraifft, testunau sanctaidd; arweinwyr crefyddol o'r gorffennol a'r presennol; cymunedau ffydd

Perthnasau a chyfrifoldeb

sut mae crefyddau'n dangos y rheolau ar gyfer byw, yn rhoi arweiniad ar gyfer penderfyniadau moesol ac yn argymhell ffyrdd o ddatblygu perthnasau personol. Er enghraifft, da a drwg; codau moesol crefyddol allweddol; agweddau crefyddol at anghydfod, rhyfel a heddwch; canfyddiadau crefyddol o briodas.

Taith bywyd

archwilio swyddogaethau, cyfrifoldebau ac ymrwymiadau credinwyr crefyddol ar wahanol adegau yn eu bywydau. Er enghraifft, seremonïau genedigaeth, rheoliadau bwyd, ymprydio, pererindota.

CHWILIO AM YSTYR

Archwilio'r byd ysbrydol

pam fod ochr ysbrydol bywyd yn bwysig i rai. Er enghraifft, credu yn Nuw; a oes gennym enaid? Teimladau o barchedig ofn, rhyfeddod a dirgelwch; profiad o fod bron â marw; teimladau trosgynnal; cred grefyddol am 'y bywyd nesaf'.

Ymateb i brofiad ysbrydol

sut a pham y bydd pobl yn gweithredu ar sail eu profiad ysbrydol. Er enghraifft, dangos cariad, maddeuant, edifeirwch, helpu yn y gymuned; rhoi eu bywyd i eraill; mynegi eu hunain trwy gelf, cerddoriaeth, barddoniaeth ac addoli.

Datblygu credoau a gwerthoedd personol

sut a pham bod pobl yn chwilio am y gwirionedd, ystyr a gwerthoedd hanfodol bywyd ac yn dod i gredu yn y posibilrwydd o ddimensiwn ysbrydol. Er enghraifft, profiadau o Dduw, gweddio, myfyrdod; cynhemlu; gwyrthiau; pererindota; parchedig ofn a rhyfeddod; gweledigaeth bersonol.



CYFNOD ALLWEDDOL 4 AC ÔL-16

RHAGLEN ASTUDIO - SGILIAU

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae addysg grefyddol yn adeiladu ar y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae'r rhaglen astudio yn adlewyrchu gofynion y cymwysterau TGAU cyfredol, gan fod rhaglenni astudio CA4 ac Ôl-16 yn cysylltu â'r Craidd Dysgu 14-19 a/neu gymwysterau priodol eraill. Yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r cyfnod Ôl-16, bydd addysg grefyddol yn cymhell y dysgwyr i ymgysylltu â chwestiynau a materion hanfodol sy'n ymwneud â'u hanghenion unigol, gan adlewyrchu hinsawdd cymdeithasol, moesol, ysbrydol a chrefyddol cymdeithas gyfoes a'r byd modern ac ysgogi a herio eu meddwl eu hunain ac eraill.

Bydd y dysgwyr yn defnyddio ystod eang o sgiliau uwch i ymchwilio i faterion athronyddol, moesegol, cymdeithasol, moesol a chrefyddol, a hynny o safbwynt credoau, dysgeidiaethau a gwerthoedd y traddodiadau crefyddol.

Wrth iddynt archwilio'u profiadau a'u safbwyntiau eu hunain ac ystyried eu hymatebion personol gan gynnal deialog ac eraill, byddant yn ymdrin â chwestiynau mwy dwfn a heriol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd dysgwyr yn datblygu tair sgil graidd mewn astudiaeth o Gristnogaeth, ac un prif grefydd arall o ddewis yr ysgol. Bydd dysgwyr ôl-16 yn astudio o leiaf Cristnogaeth a Bwdhaeth.

SGILIAU CRAIDD MEWN ADDYSG GREFYDDOL

YMDRIN Â'R CWESTIYNAU HANFODOL	ARCHWILIO CREDOAU, DYSGEIDIAETHAU AC ARFERION GREFYDDOL	MYNEGI YMATEBION PERSONOL
Mae hyn yn golygu codi cwestiynau hanfodol ac ymateb iddynt. Mae'r rhain yn gwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd.	Mae hyn yn cynnwys archwilio straeon crefyddol, testunau sanctaidd, dathliadau, defodau a symbolaeth sy'n darparu canfyddiadau'r cymunedau ffydd ynghylch y cwestiynau hanfodol.	Mae hyn yn ymwneud ag ystyried a gwerthuso profiadau, gwerthoedd a chredoau pobl eraill a'r cwestiynau y mae'r rhain yn eu codi, a'r gallu i fynegi'ch teimladau a'ch credoau eich hunan.

YMGYSYLLTU

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol:

- holi, trafod ac ymateb i'r cwestiynau hanfodol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd;
- ymchwilio i gwestiynau hanfodol o amrywiaeth o ffynonellau goleuedig er mwyn gwerthuso amrywiaeth o bosibiliadau a dechrau llunio casgliadau rhesymegol ar sail y dystiolaeth a gasglwyd;
- defnyddio amrywiaeth o sgiliau uwch, yn unigol a chydag eraill, i herio'r rhagdybiaethau ac ystyried posibiliadau;
- gwerthuso a chyfiawnhau dadleuon a safbwyntiau, gan gydnabod bod y casgliadau yn anghyflawn, yn amhendiant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

ARCHWILIO

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol:

- cofio, disgrifio ac esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol y maent yn ymchwilio iddynt;
- gwneud y cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac ymchwilio iddynt, er mwyn arddangos dealltwriaeth o amrywiaeth o syniadau a chysyniadau crefyddol;
- cydnabod ac esbonio pam fod cysyniadau crefyddol yn cael eu dehongli mewn amryw o ffyrdd a'u dangos mewn gwahanol greddoau, dysgeidiaethau ac arferion;
- llunio gwerthusiad beirniadol o effaith crefydd ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas.
- dadansoddi, dehongli a gwerthuso'r haenau o ystyr a symbolaeth sydd mewn straeon crefyddol, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth.

MYNEGI

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wneud y canlynol:

- personol a syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd;
- gwerthuso'r modd y gallai dysgu am amrywiaeth y profiad crefyddol a moesol a phenderfyniadau moesol effeithio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill;
- gwerthfawrogi, parchu a chydymdeimlo â safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio'u casgliadau rhesymegol eu hunain;
- cydnabod, archwilio a myfyrio am y dehongliadau o ochr ysbrydol bywyd;
- defnyddio amrywiaeth eang o ymadroddion crefyddol yn eu cyd-destun a dangos dealltwriaeth drylwyr o'r symbolaeth;
- defnyddio TGCh i gyrchu gwybodaeth a chyfleu cysyniadau crefyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 4

RHAGLEN ASTUDIO - YR YSTOD

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau o fewn y cyd-destunau canlynol ar gyfer astudio, a dylid archwilio pob un o'r cyd-destunau yn ystod y cyfnod allweddol. Ni ddylid astudio'r cyd-destunau hyn ar wahân; yn hytrach, dylid eu plethu trwy'i gilydd er mwyn i'r disgyblion ymgysylltu, archwilio a mynegi.

Y BYD

Tarddiad Bywyd

dylanwad ac effaith cilyddol crefydd ar berthnasau, cymunedau a diwylliannau yng Nghymru, Ewrop a'r Byd. Er enghraifft, defodau priodas, agweddau tuag at y cyfryngau a hysbysebu; tensiwn rhwng gwahanol ffyrdd o fyw; gwrthdaro â'r wladwriaeth; materion amlddiwylliannol.

Byd natur a phethau byw

sut mae crefydd yn ysbrydoli pobl i gymryd camau o fewn y gymuned leol a byd-eang. Er enghraifft, asiantaethau lleol, cenedlaethol a byd-eang; dylanwad crefydd ar ddinasyddiaeth, stiwardiaeth; cynaliadwyedd; hawliau anifeiliaid; sancteiddrwydd bywyd.

PROFIAD DYNOLRYW

Hunaniaeth dynolryw

ystyriaethau crefyddol ynghylch gwir ystyr dynoliaeth. Er enghraifft, agweddau ar gyfiawnder, cydraddoldeb, tegwch; cydwbybod; allgaredd; yr ymwybod.

Ystyr a phwrpas bywyd

ystyriaethau crefyddol yngl n â gwirionedd, ystyr, y phwrpas a gwerth. Er enghraifft, da a drwg; ewyllys rydd; ffawd; dioddefaint; diniweidrwydd; gobaith; bywyd ar ôl marw; trychinebau naturiol; gwirionedd wyddonol a chrefyddol; y defnydd a'r camddefnydd o gyfoeth.

Ymdeimlad o berthyn

sut mae crefydd yn ennyn ymrwymiad, ymglymiad, ymroddiad, myfyrdod a dyhead. Er enghraifft, y defnydd o amser; dewis gyrfa; mynegi ffyrdd trwy weithredoedd, myfyrdod ac addoli;

Awdurdod a dylanwad

dylanwad crefydd ar y penderfyniadau a wneir gan unigolion a chymunedau. Cymru, Ewrop a'r Byd Er enghraifft, rhyddid crefyddol; rhyddid i leisio barn; hawliau sifil; rhyfel a heddwch; erthyly; sensoriaeth.

Perthnasau a chyfrifoldeb

effaith crefydd ar ddatblygiad personol, cymdeithasol a moesol eich hunain ac eraill. Er enghraifft, rheolau bywyd; hawliau a dyletswyddau; cofleidio amrywiaeth; hawliau hoywon; priodas ac ysgariad; cyfrifoldeb gorfodol a chynhenid; tensiynau rhwng dewisiadau personol a dyletswydd grefyddol.

Taith bywyd

sut mae crefydd yn effeithio ar y ffordd mae credinwyr yn byw eu bywydau. Er enghraifft, defodau newid byd; gwisg grefyddol; dylanwad a phwysau cyfoedion; blaenoriaethau.

CHWILIO AM YSTYR

Archwilio'r byd ysbrydol

profiadau crefyddol ac ysbrydol. Er enghraifft, tröedigaethau; gwerth y profiad ysbrydol; cyltiau cyfoes.

Ymateb i brofiad ysbrydol

sut a pham y bydd pobl yn gweithredu ar sail eu profiad ysbrydol. Er enghraifft, newidiadau yn y blaenoriaethau a gwerthoedd personol; ymatebion crefyddol i wahaniaethu ac anghyfiawnder.

Datblygu credoau a gwerthoedd personol

sut a pham bod pobl yn chwilio am y gwirionedd, ystyr a gwerthoedd hanfodol bywyd ac yn dod i gredu yn y posibilrwydd o ddimensiwn ysbrydol. Er enghraifft, pam credu yn Nuw? Colled a phrofedigaeth; gweddio, myfyrdod.



ÔL - 16

RHAGLEN ASTUDIO - YR YSTOD

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau o fewn y cyd-destunau canlynol ar gyfer astudio, a dylid archwilio pob un o'r cyd-destunau yn ystod y cyfnod hwn. Ni ddylid astudio'r cyd-destunau hyn ar wahân; yn hytrach, dylid eu plethu trwy'i gilydd er mwyn i'r disgyblion ymgysylltu, archwilio a mynegi.

Y BYD

Bywyd – ei bwrpas a'i werth

sut mae crefydd yn pwysleisio gwerth bod yn ddynol, e.e. cymhellion, penderfyniadau a goblygiadau; cam-fanteisio a chaethwasiaeth fodern; masnach deg/cydraddoldeb/cyfiawnder; sancteiddrwydd bywyd.

Byd natur a phethau byw

rhesymau a gwrthwynebiadau crefyddol i'r defnydd a chamddefnydd o fyd natur a phethau byw. Er enghraifft, moeseg feddygol, dehongliadau o ddeddf natur; y driniaeth o anifeiliaid; organig /addasu genetig.

PROFIAD DYNOLRYW

Hunaniaeth dynolryw

cwestiynau yngl n â sicrwydd a gwirionedd crefyddol y yn y gymdeithas gyfoes. Er enghraifft, dehongliadau o Dduw; gwirionedd a gonestrwydd yn y cyfryngau mewn perthynas â materion crefyddol; safbwyntiau newidiol ynghylch crefydd trwy gydol bywyd.

Ystyr a phwrpas bywyd

sut mae gwerthoedd a syniadau yn dylanwadu ar hunanwerth a'r canfyddiad o eraill. Er enghraifft, y portread o Dduw yn y cyfryngau, crefydd a moesoldeb; y delfrydau ymddwyn yn y cyfryngau; ffigyrau ac enwogion sy'n ysbrydoli; gwyddoniaeth a chrefydd.

Ymdeimlad o berthyn

Cymru a'r pentref byd-eang, a goblygiadau hynny o ran crefydd. Er enghraifft, cymdeithas amlddiwylliannol; plwraliaeth; cyfoeth amrywiaeth; hygyrchedd bydeang; gwerthoedd a pherthnasau newidiol; y cynnydd mewn cyfathrebu electronig; swyddogaeth dynion a menywod mewn crefydd.

Awdurdod a dylanwad

sut mae'r awdurdodau crefyddol a seciwlar yn ymateb i, ac yn defnyddio, y cyfryngau a'r diwydiannau adloniant cyfoes. Er enghraifft, fideos a cherddoriaeth; y portread o drais ac ymddygiad rhywiol; y defnydd a'r camddefnydd o'r Rhyngwrdd.

Perthnasau a chyfrifoldeb

sut mae crefydd yn effeithio ar gytgord/anghytgord ledled y byd. Er enghraifft, democratiaeth/theocratiaeth; diwinyddiaeth rhyddid; rhyfel a heddwch; terfysgwr/merthyr/brwydrwr dros ryddid; daliadau gwleidyddol yn gysylltiedig â thraddodiadau crefyddol.

Taith bywyd

dehongliadau theistig ac antheistig o hanes y creu a phwrpas dynoliaeth. Er enghraifft, Natur a magwraeth; dehongliadau o ffawd, tynged, achubiaeth a rhagluniaeth.

CHWILIO AM YSTYR

Archwilio ysbrydaeth

diffiniadau traddodiadol a'r ddealltwriaeth o brofiad crefyddol ac ysbrydaeth. Er enghraifft, enwadau; ydy crefydd yn niwroffolegol a seicolegol?

Ymateb i brofiad ysbrydol

effaith profiad crefyddol/ysbrydol ar unigolion ar y gymuned ehangach a'r ymatebion sy'n gallu cadarnhau neu herio'r rhain. Er enghraifft, profiad o fod bron â marw; newid ffyrdd o fyw; herio deddfau a moesau traddodiadol; tarddiad profiadau crefyddol.

Datblygu credoau a gwerthoedd personol

sut a pham bod pobl yn chwilio am y gwirionedd, ystyr a gwerthoedd hanfodol bywyd ac yn dod i gredu yn y posibilrwydd o ddimensiwn ysbrydol. Er enghraifft, datguddiad; ffydd; amheuaeth ac anghrediniaeth; cyfriniaeth; ysbrydiaeth; myfyrdod.



DISGRIFYDDION LEFEL

Ymgysylltu â'r cwestiynau hanfodol

Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol

Mynegi ymatebion personol

LEFEL 1

Bydd y disgyblion yn siarad am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd. Byddant yn cofio ac yn ymateb i rai credoau crefyddol, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwiliwyd. Byddant yn dangos peth ymwybyddiaeth bod yr agweddau hyn ar grefydd yn arbennig. Byddant yn cydnabod bod eu teimladau, gweithredoedd a safbwyntiau yn debyg, neu'n wahanol i ddaliadau pobl eraill. Yn achlysurol, byddant yn defnyddio geirfa crefyddol syml yn briodol i fynegi eu syniadau.

LEFEL 2

Bydd y disgyblion yn siarad am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, ac yn awgrymu rhai atebion. Byddant yn cofio ac yn cyfleu rhai o'r credoau crefyddol, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwiliwyd. Byddant yn awgrymu, mewn termau syml, pam fod rhai agweddau ar grefydd yn bwysig i rai pobl. Byddant yn siarad mewn termau syml am eu teimladau, gweithredoedd a safbwyntiau eu hunain a phobl eraill. Byddant yn defnyddio geirfa crefyddol syml yn briodol.

LEFEL 3

Bydd y disgyblion yn trafod y cwestiynau sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan fynegi eu barn eu hunain. Bydd y disgyblion yn trafod y cwestiynau sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan fynegi eu barn eu hunain. Byddant yn cofio ac yn cyfleu rhai o'r credoau crefyddol, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol a ymchwiliwyd. Byddant yn disgrifio sut mae rhai agweddau ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Byddant yn disgrifio eu teimladau eu hunain, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau, ac yn rhoi sylwadau ynglŷn â safbwyntiau y pobl eraill, mewn termau syml. Byddant yn dechrau cydnabod bod ystyr i'r symbolau crefyddol, ac yn defnyddio geirfa crefyddol yn briodol.

LEFEL 4

Bydd y disgyblion yn trafod eu hymatebion eu hunain ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u hamgylch a chrefydd. Byddant yn disgrifio ac yn dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwiliwyd. Byddant yn rhoi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd y mae'r agweddau hyn yn effeithio ar fywydau credinwyr ac yn dechrau adnabod yr elfennau cyffredin a'r gwahaniaethau rhwng crefyddau. Byddant yn esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy yn gwahaniaethu oddi wrth rai pobl eraill. Byddant yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn defnyddio amrywiaeth o eirfa crefyddol yn briodol.

LEFEL 5

Bydd y disgyblion yn mynegi a chyfiawnhau syniadau a safbwyntiau ynglŷn â chwestiynau hanfodol, yn seiliedig ar eu hymchwil a'u profiad. Byddant yn gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a astudiant, gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau'r credinwyr a nodi'r elfennau cyffredin a'r gwahaniaethau o fewn, a rhwng, crefyddau. Byddant yn esbonio eu teimladau, gweithredoedd a'u safbwyntiau eu hunain sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain ac yn disgrifio'r modd yr effeithir ar fywydau pobl eraill yn yr un modd. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o eirfa crefyddol yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

DISGRIFYDDION LEFEL

Ymgysylltu â'r cwestiynau hanfodol

Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol

Mynegi ymatebion personol

LEFEL 6

Bydd y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau goleuedig a'u profiadau eu hunain er mwyn cyflwyno tystiolaeth ac yn datblygu ymatebion priodol i gwestiynau hanfodol. Byddant yn defnyddio'u dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y credoau crefyddol, dysgeidiaethau ac arferion a ymchwiliwyd er mwyn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o grefydd ac esbonio'r gwahanol safbwyntiau crefyddol. Byddant yn esbonio'r berthynas rhwng eu credoau a'u gweithredoedd eu hunain. Byddant hefyd yn esbonio'r berthynas rhwng credoau a gweithredoedd pobl eraill. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o eirfa grefyddol yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o symbolaeth ac iaith symbolaidd.

LEFEL 7

Bydd y disgyblion yn ymchwilio i gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol o wahanol safbwyntiau crefyddol ac yn dechrau llunio casgliadau rhesymegol. Byddant yn cymhwyso amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol i amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion. Byddant yn esbonio a chyfiawnhau'r rhesymau am wahanol ddaliadau pobl grefyddol. Byddant yn ystyried goblygiadau eu credoau a'u gweithredoedd eu hunain, yn cymharu'r rhain â phobl eraill ac yn llunio casgliadau cytbwys. Byddant yn defnyddio geirfa grefyddol amrywiol yn briodol ac yn gallu esbonio ystyr symbolaidd gwrthrychau, gweithredoedd a/neu iaith grefyddol.

LEFEL 8

Bydd y disgyblion yn ymchwilio i gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol, yn gwerthuso amrywiaeth o bosibiliadau ac yn llunio casgliadau rhesymegol ar sail y dystiolaeth a gasglwyd. Byddant yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol, gan gynnwys safbwyntiau amrywiol ynglŷn â'r credoau, gwerthoedd a thraddodiadau o fewn y crefyddau a astudir. Byddant yn gwerthuso agweddau amrywiol ar grefydd ac yn esbonio sut mae'r rhain yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas. Byddant yn ymchwilio i'r cysyniadau crefyddol a astudir, gan werthuso eu safbwyntiau eu hunain a rhai pobl eraill trwy ddadlau rhesymegol a thystiolaeth. Byddant yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa grefyddol yn eu cyd-destun ac yn dangos dealltwriaeth drylwyr o iaith symbolaidd.

PERFFORMIAD EITHRIADOL

Bydd y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol hanfodol yn aml yn gymhleth a bod yr atebion yn aml yn anghyflawn ac amhendant. Byddant yn dadansoddi ac yn rhoi rhesymau am y gwahanol safbwyntiau ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a thraddodiadau'r crefyddau a astudir, gan gydnabod y gwahaniaethau rhwng crefyddau a gwerthfawrogi'r tensiwn rhwng undod a lluosogaeth o fewn pob crefydd. Bydd ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth drylwyr o ymddygiad a chredoau dilynwyr y gwahanol systemau ffydd. Mewn perthynas â'r gwahanol gysyniadau crefyddol a moesol a astudir, byddant yn mynegi barn oleuedig ynglŷn â safbwyntiau pobl eraill, yn seiliedig ar ymchwil trylwyr. Byddant yn defnyddio amrywiaeth eang o dermau crefyddol yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth drylwyr o iaith symbolaidd.